



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Sut gall fy
musnes i gael
gafael ar
hyfforddiant o
ansawdd uchel
a chymryd
rhan ynddo?

Yr ateb yw
Prentisiaethau.



Arweiniad Cryno i Brentisiaethau yng Nghymru


Mae cyflogwyr a phrentisiaid fel ei gilydd yn gwerthfawrogi'r rhaglen yn fawr iawn, ac mae cyfraddau cwblhau'r fframwaith dros 80% yn gyson.

Mae prentisiaethau yn elfen hanfodol o sicrhau llwyddiant a ffyniant economaidd yng Nghymru. Trwy fuddsoddi mewn sgiliau, rydym hefyd yn buddsoddi yn nyfodol y genedl.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i ddarparu o leiaf 100,000 o brentisiaethau o ansawdd uchel dros dymor y Cynulliad hwn, sydd ar gael i bobl o bob oed.

Trwy gynnig Prentisiaethau, rydych chi nid yn unig yn helpu'ch busnes i dyfu ond hefyd yn gwneud cyfraniad amhrisiadwy i hybu ein heconomi a sicrhau bod gan weithlu'r dyfodol y sgiliau cywir i sicrhau bod Cymru yn parhau'n gystadleuol.

Mae rhaglen brentisiaeth hynod lwyddiannus wedi'i datblygu yma yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf, mewn partneriaeth â busnesau'r wlad gyda phwyslais cryf ar ansawdd y ddarpariaeth.



Beth yw Prentisiaeth?

Mae prentisiaethau'n cyflenwi'r gweithwyr medrus sydd eu hangen ar gyflogwyr nawr ac yn y dyfodol, gan ddiwallu anghenion economi sy'n newid.

Mae prentisiaid yn gweithio ochr yn ochr â gweithwyr profiadol er mwyn ennill sgiliau penodol i'w swydd. Ar yr un pryd, fe fyddan nhw'n astudio tuag at gymhwyster cenedlaethol

cydnabyddedig gan goleg, prifysgol neu ddarparwr hyfforddiant cymeradwy. Bydd prentisiaid yn ennill arian wrth ddysgu ac yn gweithio tuag at gymhwyster cenedlaethol cydnabyddedig.



Manteision i fusnesau

Mae prentisiaethau wedi'u cynllunio o amgylch anghenion y cyflogwr, a gallant helpu'ch busnes trwy gynnig ffordd o harneisio doniau newydd. **Trwy recriwtio prentis gallwch:**

- Mae Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at y rhan fwyaf o'r costau hyfforddiant, felly byddwch chi'n arbed arian
- Mae lefelau a mathau gwahanol o brentisiaethau ar gael, yn unol â'ch anghenion fel cyflogwr
- Bylchau sgiliau neu brinder sgiliau? Mae prentisiaethau wedi'u cynllunio i'w llenwi. Felly, byddwch wedi'ch paratoi'n well ar gyfer y dyfodol
- Maen nhw'n eich galluogi i ddatblygu doniau'ch gweithwyr cyflogedig newydd a phresennol
- Mae prentisiaethau ar gael mewn llawer o ddiwydiannau a swyddi – felly gallwch gael gafael ar hyfforddiant sy'n berthnasol i'ch busnes
- Datblygu gweithlu proffesiynol a medrus

“Mae prentisiaethau'n rhan annatod o'n diwylliant fel busnes gan eu bod nhw'n ein galluogi i lenwi'r bylchau mewn sgiliau sydd yn ein gweithle ar hyn o bryd. Mae prentisiaid yn dechrau dysgu sgiliau sector benodol o'r cychwyn cyntaf; gan ddatblygu gwybodaeth arbenigol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at lwyddiant y busnes.”

Carmela Carrubba,
Cyfarwyddwr, Real SFX

Ydw i'n gymwys?

Yng Nghymru mae busnesau o bob maint yn gymwys. Chi, y cyflogwr, fydd yn gyfrifol am gyflwyno'r rhan fwyaf o'r hyfforddiant, ac fe fyddwch chi'n gweithio gyda darparwr hyfforddiant cymeradwy, a fydd yn rheoli rhaglen hyfforddi ac asesu'r prentis.

Gall unrhyw un dros 16 oed yng Nghymru wneud cais am brentisiaeth a manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael.

Dewiswch Brentisiaeth addas i'ch busnes chi

Prentisiaethau Sylfaen

Mae Prentisiaethau Sylfaen yn ffordd o astudio tuag at gymwysterau sy'n cyfateb i 5 TGAU neu NVQ Lefel 2, ac yn aml yn mynd ymlaen i gwblhau Prentisiaethau a Phrentisiaethau Uwch.

Prentisiaethau Uwch

Mae Prentisiaethau Uwch yn caniatáu i unigolion weithio tuag at gymhwyster cyfwerth â lefel HND / HNC, gradd sylfaen neu radd anrhydedd. Mae Prentisiaethau Uwch ar gael ar draws pob math o sectorau gwahanol o Awyrodod i Gyfrifeg, o Adeiladu i'r Cyfryngau Creadigol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i wella sgiliau lefel uwch yng Nghymru trwy gyfrwng Prentisiaethau Uwch, gan ganolbwyntio ar gynyddu nifer y cyfleoedd technegol a phroffesiynol ar lefel 4 ac uwch.

Prentisiaethau

Mae Prentisiaid yn ennill sgiliau gwerthfawr yn y gwaith wrth astudio tuag at gymhwyster cenedlaethol cydnabyddedig sy'n cyfateb i 2 gymhwyster Safon Uwch neu NVQ Lefel 3.

Prentisiaethau Gradd

Trwy gyfuno dysgu lefel uwch a chyflogaeth, mae cyflogwyr yn gallu datblygu eu gweithlu ac mae prentisiaid yn gallu ennill gradd, datblygu gyrfa ac ennill cyflog. Bydd Prentisiaethau Gradd yn cael eu cynnig ym meysydd TGCh / digidol, peirianeg a gweithgynhyrchu uwch yn y lle cyntaf.

Mae Prentisiaethau Gradd yn cynnig dysgu ar Lefel 6 a'r cyfle i ennill gradd faglor lawn. Maen nhw'n cyfuno gweithio ac astudio'n rhan-amser mewn prifysgol neu goleg yng Nghymru.

Prentisiaethau Cymraeg a Dwyieithog

Mae prentisiaethau Cymraeg a dwyieithog yn rhoi cyfle i unigolion ddilyn cyfleoedd hyfforddiant yn yr iaith o'u dewis. Gall prentisiaid ddysgu sgiliau newydd a chael cymorth i gynnal a datblygu eu sgiliau Cymraeg yn y gweithle.

Cyflogi pobl anabl

Gall annog pobl anabl i wneud cais eich helpu i:

- Gynyddu nifer yr ymgeiswyr o ansawdd uchel sydd ar gael
- Creu gweithlu sy'n adlewyrchu'r ystod amrywiol o gwsmeriaid rydych chi'n eu gwasanaethu, a'r gymuned leol
- Cyflwyno sgiliau ychwanegol i'r busnes, fel y gallu i ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain (BSL), gan arwain at arbedion mawr o bosibl.

Fel arfer, mae'n fwy manteisiol cadw gweithiwr cyflogedig profiadol, medrus sydd wedi datblygu nam na recriwtio a hyfforddi staff newydd. Mae'n dda i'r unigolyn hefyd.

Mae costau gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer gweithwyr cyflogedig anabl yn isel yn aml.

Mae'r cynllun Mynediad i Waith yn gallu darparu cymorth i dalu am gyfarpar arbennig, addasiadau neu wasanaethau gweithwyr cymorth er mwyn helpu pobl anabl gyda chostau cymorth yn y gweithle.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/access-to-work

Mae pob prentisiaeth yn cynnwys:

- Cymhwyster o gymhwysedd o dan Fframwaith Cymwysterau a Chredydau Cymru (FFCC)
- Cymhwyster technegol sy'n berthnasol i'r sgil, crefft neu alwedigaeth benodol ar gyfer y Brentisiaeth dan sylw
- Cymwysterau Sgiliau Hanfodol (os yn berthnasol) gan gynnwys cymhwyso rhif, cyfathrebu, a sgiliau llythrennedd digidol
- Cymwysterau neu ofynion eraill a nodir ar gyfer yr alwedigaeth dan sylw.



Yr Ardoll Brentisiaethau

Beth mae'n ei olygu i'ch busnes?

Mae'r Ardoll Brentisiaethau yn dreth gyflogaeth ledled y DU a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ar 6 Ebrill 2017. Mae'r Ardoll yn berthnasol i bob cyflogwr yn y DU sydd â 'bil tâl' blynyddol o £3 miliwn neu fwy. Mae'n cael ei chasglu ledled y DU gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi trwy'r cynllun Talu Wrth Ennill.

Pwy sy'n talu'r Ardoll?

Mae'r Ardoll yn berthnasol i gyflogwyr o bob math yn y DU, yn y sector preifat a chyhoeddus, sydd â 'bil tâl' o £3 miliwn neu fwy.

Sut mae'r Ardoll yn cael ei chyfrifo?

Mae'r Ardoll wedi'i phennu fel 0.5% o gyfanswm y 'bil tâl' blynyddol.

Rhagor o fanylion

Cysylltwch â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi i gael rhagor o wybodaeth am yr Ardoll.

Sut i recriwtio prentis

1. Bydd prentisiaid yng Nghymru yn dilyn fframwaith prentisiaeth sy'n addas i'w hanghenion a'u lefel. Fel cyflogwr, dylech weithio gyda'ch darparwr hyfforddiant i ystyried y fframwaith mwyaf addas. Gallwch chwilio Fframweithiau Prentisiaeth Ar-lein yn <http://www.afo.sscalliance.org> yn ôl pwnc neu sector. Mae fframweithiau'n darparu gwybodaeth allweddol i chi fel:
 - Swyddi sy'n berthnasol i gynnwys y fframwaith
 - Cymwysterau
 - Cynnwys Cymhwysedd, Gwybodaeth a Sgiliau Hanfodol
2. Gallwn eich helpu i ddod o hyd i ddarparwr hyfforddiant cymeradwy sy'n cynnig fframwaith Prentisiaeth sy'n addas i'ch

busnes. Mae darparwyr hyfforddiant ledled Cymru wedi cael sicrwydd ansawdd ac maen nhw'n gweithio gyda busnesau i ddarparu rhaglenni dysgu seiliedig ar waith o ansawdd uchel. Byddan nhw'n trefnu hyfforddiant, asesiad a chymwysterau eich prentisiaid.

3. Hysbysebwcwch eich prentisiaeth wag ar Wasanaeth Paru Prentisiaid er mwyn dod o hyd i brentis sy'n addas ar gyfer eich busnes.
4. Trafodwch gyflog sy'n adlewyrchu sgiliau a phrofiad yr unigolyn. (Efallai y bydd gofyn i chi gyfrannu at rywffaint o'r costau hyfforddi hefyd).

I gael rhagor o gyngor, arweiniad a chymorth, chwiliwch Prentisiaethau Busnes Cymru neu ffoniwch ni ar **03000 6 03000**.

Hysbysebwcwch eich prentisiaeth wag ar y Gwasanaeth Paru Prentisiaid

Y Gwasanaeth Paru Prentisiaid yw'r system recriwtio ar-lein swyddogol ar gyfer prentisiaethau yng Nghymru. Mae'n rhoi llwyfan am ddim i gyflogwyr hysbysebu prentisiaethau gwag o safon y gall ymgeiswyr o bob cwr o'r wlad sy'n cofrestru ar-lein eu gweld a gwneud cais amdanynt.

Mae'r gwasanaeth paru ar-lein hwn yn helpu cyflogwyr i ddod o hyd i brentisiaid addas, ac yn rhoi cyfleoedd cyffrous i ddarparu brentisiaid mewn busnes sy'n addas ar eu cyfer. Gall cyflogwyr adolygu'r ceisiadau, eu hidlo ar gyfer creu rhestr fer a gwahodd ymgeiswyr i gyfweiliadau.



Rhagor o wybodaeth

[busnescymru.llyw.cymru/porthsgiliau/
prentisiaethau](https://busnescymru.llyw.cymru/porthsgiliau/prentisiaethau)

Ffoniwch Porth Sgiliau Busnes Cymru
03000 6 03000

 **PrentisiaethauCymru**
 **@prentisiaethaucymru**